Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Dyddiad: 31 Mawrth 2004

Lleoliad: Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful

Teitl: Ymateb i'r Adolygiad ar Weithredu'r Ddeddfwriaeth ar Ddigartrefedd gan Awdurdodau Lleol, a Hynt Argymhellion y Comisiwn Digartrefedd a'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd

Diben

- Cyflwyno gerbron y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i Adolygiad HACAS Chapman Hendy ar Weithredu Deddfwriaeth ar Ddigartrefedd gan Awdurdodau Lleol (yr Adolygiad) a gafodd ei drafod yn y lle cyntaf yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2003 yn Llanelli.

- Rhoi gwybodaeth ar yr hyn a wnaed hyd yma er mwyn mynd rhagddo â gwaith y Comisiwn Digartrefedd a'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd.

Crynodeb/Argymhelliad

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi fy ymatebion i'r 19 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad (Atodiad 1), yr 8 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid (Atodiad 2), a'r 4 argymhelliad ar ymchwil (Atodiad 3) a wnaed yn yr Adolygiad. Rwyf hefyd wedi paratoi adroddiad (Atodiad 4), er gwybodaeth a thrafodaeth, yn crynhoi'r hyn a wnaed o fewn y prif feysydd polisi yn ymwneud ag argymhellion y Comisiwn Digartrefedd yn 2001, fel y'u rhoddwyd ar waith gan y Strategaeth Digartrefedd.

Y Cefndir

Yr Adolygiad ar Weithredu Deddfwriaeth ar Ddigartrefedd

Mae'r adroddiad o'r adolygiad yn gwneud argymhellion penodol ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad (19), Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid (8), awdurdodau lleol (35), ac asiantaethau eraill (15). Mae hefyd yn cynnwys pynciau ymchwil pellach (4). Mae'r adroddiad llawn wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu i ystod eang o fudiadau statudol a gwirfoddol. Mae'r rhain yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r WHFA, ac mae'r swyddogion yn rhan o drafodaethau gyda'r ddau sefydliad hyn er mwyn rhoi ar waith yr argymhellion perthnasol yn yr adroddiad.

Dengys yr adolygiad bod y newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd wedi'u croesawu'n fras gan yr holl sefydliadau yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi bod yna enghreifftiau sylweddol o arferion da wrth ddelio â materion yn ymwneud â digartrefedd, ond mae yna faterion sy'n achosi pryder ac nid oes cysondeb yn y dulliau gweithredu ledled Cymru. Mae fy ymateb i'r argymhellion yn dangos sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ymateb i'r rhan fwyaf o'r argymhellion a byddwn yn delio â'r materion hynny lle bo gwaith pellach yn ofynnol.

Mae perfformiad rhai awdurdodau a'r flaenoriaeth a roddir yn lleol i fynd i'r afael â'r broblem hon yn peri cryn bryder i mi. Mae'r adroddiad, ynghyd â gwybodaeth arall, yn tynnu sylw at yr anghysondebau yn y dulliau gweithredu rhwng awdurdodau. Felly, yn ogystal ag ymateb i argymhellion yr Adroddiad, rwyf eisoes wedi cyfarfod â Syr Harry Jones ym mis Rhagfyr 2003 i drafod yr adroddiad a byddaf yn cyfarfod cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn y dyfodol agos i drafod eu perfformiad a chanfyddiadau'r adroddiad, a materion cysylltiedig eraill.

Y Comisiwn Digartrefedd a'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd

Grp gorchwyl a gwaith a sefydlais yn 2001 er mwyn gwneud argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad a fyddai'n caniatáu i'r polisi ar ddigartrefedd gael ei ddatblygu mewn ffordd gynhwysol oedd y Comisiwn Digartrefedd. Cadeiriwyd y Comisiwn gan Peter Black AS ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff statudol a gwirfoddol ledled Cymru. Gwnaeth y Comisiwn 91 argymhelliad, gan gynnwys yn eu plith faterion megis diffinio digartrefedd, iechyd, addysg a thrais yn y cartref. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad i ddatblygu Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd.

Cafodd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Comisiwn ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ym mis Ebrill 2002. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi gwneud sylwadau ar strategaeth genedlaethol ddrafft i fynd i'r afael â digartrefedd a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori. Cymeradwywyd y Strategaeth Genedlaethol derfynol ar Ddigartrefedd gan y Cynulliad Cenedlaethol llawn ym mis Mawrth 2003.

Seiliwyd y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd ar waith y Comisiwn Digartrefedd a'i argymhellion. Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr egwyddorion a hyrwyddwyd gan y Comisiwn, yn arbennig y pwyslais ar osgoi digartrefedd, cynnig gwasanaethau cydgysylltiedig, a sicrhau bod gwasanaethau yn ymateb yn hyblyg i ateb anghenion unigol. Mae'r Strategaeth yn cynnig agenda drawsbynciol i weithredu ar draws holl brif themâu adroddiad y Comisiwn. Mae Atodiad 4 yn cynnwys crynodeb o'r hyn a wnaed hyd yma ym mhob un o'r prif feysydd yr ymdrinnir â hwy yn adroddiad y Comisiwn Digartrefedd a'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd.

Yn sgil cyhoeddi'r Strategaeth sefydlais y Gweithgor Strategaethau Digartrefedd er mwyn cynghori ar ei gweithrediad a'i datblygiad a sut y mae'n cysylltu â strategaethau lleol. Mae'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, WFHA a'r sector gwirfoddol. Bydd y Gweithgor yn adolygu'r Strategaeth gyda chymorth y Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru dros y misoedd i ddod. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar yr adolygiad hwn yn yr Hydref.

Edwina Hart AC MBE

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio